



Ein cyf/Our ref: MA-L/FM/0244/17

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Awst 2017

Annwyl Huw

Ym mis Rhagfyr 2015, ymatebais i argymhellion adroddiad pwyllgor eich rhagflaenydd, *Deddfu yng Nghymru*. Addewais y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad* wedi iddo gael ei ddiweddarau ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Rwyf heddiw yn cyhoeddi'r *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad* ar wefan Llywodraeth Cymru. Canllaw mewnol i Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yw'r llawlyfr. Mae'n ymdrin â'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi deddfwriaeth sylfaenol a chefnogi Gweinidogion i fynd â'r ddeddfwriaeth drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r canllaw hwn wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau diweddar i'r Rheolau Sefydlog a bydd yn cael ei ddiweddarau eto o bryd i'w gilydd i ystyried newidiadau i'r setliad datganoli a datblygiadau eraill.

Yn fy ymateb i'r adroddiad *Deddfu yng Nghymru*, mynegais fod tipyn o orgyffwrdd rhwng argymhellion y pwyllgor a'r gwaith sydd ar y gweill yn Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer cynllunio a rheoli'r rhaglen ddeddfwriaethol yn y Pumed Cynulliad.

Nodais amryw o agweddau allweddol lle yr ydym yn rhannu gweledigaeth, gan gynnwys:

- Datblygu polisi cynhwysfawr ar ddechrau'r broses ar gyfer pob cynnig deddfwriaethol
- Nodi goblygiadau ariannol a'u hystyried ar ddechrau'r broses
- Meithrin cysylltiadau'n effeithiol â rhanddeiliaid gydol y broses ddeddfwriaethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Ffiliau'r Cynulliad* yn amlinellu'r hyn sy'n ofynnol gan dimau Bil ym mhob cyfnod o'r broses, o geisio cael cynnwys Bil yn rhaglen ddeddfwriaethol y llywodraeth i gychwyn Deddf Cynulliad. Gan hynny, mae'n egluro sut y gall Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru gefnogi'r weledigaeth a rennir gennym ar gyfer deddfwriaeth.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn gam ymlaen yn ein dull tryloyw ac agored o gyflawni rhaglen ddeddfwriaethol y llywodraeth hon.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd a bydd copi o'r llawlyfr yn cael ei roi yn y llyfrgell.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carwyn Jones', written in a cursive style.

CARWYN JONES